| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **15 RHAGFYR 2011** |
| **TEITL** | **DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS 2011/12** |
| **PWRPAS** | **CYMERADWYO ADDASIAD I'R DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS 2011/12** |
| **AWDUR** | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **CYNGHORYDD SIÂN GWENLLÏAN** |

## 1. CEFNDIR

Cymeradwywyd Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2011/12 gan y Cyngor llawn ar 3 Mawrth 2011. Un o amcanion y Datganiad yw gosod y fframwaith ar gyfer buddsoddi arian dros ben er mwyn ennill llog yn ystod y flwyddyn. Gan mai'r Cyngor llawn ddaru gymeradwyo'r strategaeth wreiddiol, cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Cyngor llawn er penderfyniad, ond gydag argymhelliad yn dilyn ystyriaeth manwl gan y Pwyllgor Archwilio.

## 2. GWELLIANT A GYNIGIR

### 2.1 Banciau a Chymdeithasau Adeiladu

Yn ystod 2011/12 mae'r sefyllfa ariannol fyd-eang wedi dirywio ac mae nifer o fanciau ar Restr Gwrthbartion Awdurdodedig y Cyngor wedi cael eu hisraddio.

Yn unol â'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2011/12 mae'n hanfodol bod unrhyw sefydliad ariannol a defnyddir at ddibenion buddsoddi gyda graddfa credyd "A" o leiaf ac mae uchafswm ar gyfer hyd y buddsoddiad yw 2 flynedd.

Mae ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor, Arlingclose, yn **argymell y dylid newid y cyfyngiad i raddfa credyd isafswm "A-" ac uchafswm cyfnod buddsoddi o un flwyddyn.**

Ni fyddwn awydd ychwanegu pob banc gyda graddfa credyd “A” i’n rhestr, ond byddai hyn yn **caniatáu gwneud buddsoddiadau gyda banciau a chymdeithasau adeiladu'r DU sydd yn gyfundrefnol bwysig** fel a ganlyn:

- Barclays Bank Plc
- HSBC Bank Plc
- Santander UK Plc
- Standard Chartered Bank
- Lloyds TSB
- Bank of Scotland
- Nat West
- Royal Bank of Scotland
- Nationwide Building Society

Roedd israddiadau diweddar i rai o’r sefydliadau uchod oherwydd lleihad yn eu cyfraddiad tymor hir (dros 13 mis) oherwydd newidiadau disgwylir yn y system bancio mewn 5 mlynedd. Rhwng 3 a 6 mis yw’r cyfyngiadau cyfredol ar ein buddsoddiadau ac nid yw’r cyfraddiadau ar gyfer cyfnodau byrrach wedi cael eu heffeithio. Felly, mae’r risg berthnasol yn parhau i fod o fewn y paramedrau a osodwyd yn y strategaeth ar gyfer 2011/12.

### 2.2 Awdurdodau Lleol

Mae’r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2011/12 yn cynnwys Adneuon Cyfnod Penodol gydag Awdurdodau Lleol. Mae’r rhain yn fuddsoddiadau diogel iawn ac wedi bod yn ffynhonnell dda o incwm yn ystod 2011/12. £10miliwn yw’r cyfyngiad cyfredol ar gyfer buddsoddiadau gydag awdurdodau lleol eraill. Mae ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor, Arlingclose, yn **argymell codi’r cyfyngiad hwn i £25miliwn**.

## 3. ARGYMHELLIAD

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i’r Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011 a phenderfynwyd argymell i’r Cyngor llawn cymeradwyo’r newidiadau yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr 2011.

Gofynnir felly i’r Cyngor llawn cymeradwyo’r newidiadau a gynigir ym mharagraffau 2.1 and 2.2 o’r adroddiad yma.